**Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy**

**19 Ionawr 2022**

Yn bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Cynghorydd K Doolin, Dr M Havard, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

[Cyrhaeddodd Dr R Plummer adeg ystyried yr Adroddiad Ariannol (gweler Cofnod 4).]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am - 11.20am)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Hydref 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13eg o Hydref 2021.

**4. Adroddiad Ariannol**
Roedd adroddiad y Swyddog Cyllido a Grantiau yn rhoi diweddariad ar y prosiectau oedd wedi derbyn grant SDF yn flaenorol ac yr oedd ymrwymiad ariannol yn dal i fod ar eu cyfer, ynghyd â rhestru'r prosiectau hynny oedd wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf. Dywedwyd bod hawliadau terfynol bellach wedi dod i law ers cynhyrchu'r adroddiad ar gyfer y prosiectau Gwarcheidwaid Treftadaeth ac Ysgolion Awyr Agored. Tynnwyd sylw'r Aelodau at ddwy ddolen gyswllt yn yr adroddiad – adroddiad terfynol gan Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian Cyf (SDF/012021/2) a hefyd map yn dangos lleoliad y prosiectau a gefnogwyd ers i'r Gronfa gael ei hadnewyddu yn 2020, oedd yn dangos dosbarthiad eang ar draws y sir yn gyfan.

Dywedwyd bod £100,000 ar gael i'w ddosbarthu mewn grantiau gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod 2021/22 a £90,000 yn ychwanegol o gronfa Llywodraeth Cymru Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy oedd yn golygu bod cyfanswm y grantiau oedd ar gael yn 2021/22 yn £190,000. Dywedwyd bod £89,843 o grant wedi'i ddyfarnu yn

y flwyddyn gyfredol, sy'n golygu bod £100,157 yn parhau i fod ar gael i'w ddyfarnu.

Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad rhagorol, cwestiynwyd a oedd unrhyw feini prawf ychwanegol i'r cyllid a dderbyniwyd oddi wrth Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy, neu a oedd y rhain yn cyd-fynd â meini prawf yr Awdurdod. Atebodd y swyddog bod Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy yn darparu cyllid ar gyfer datgarboneiddio ac adfer natur ond hefyd elfennau o dwristiaeth gynaliadwy na fyddai'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cyllid y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

**Nodwyd.**

## 5. Eithrio'r cyhoedd

Dywedwyd, wrth drafod y ceisiadau, y gallai gwybodaeth gael ei rhannu oedd yn bersonol neu'n fasnachol sensitif, a gofynnwyd felly i'r cyhoedd gael ei eithrio o'r cyfarfod.

Gofynnwyd i'r swyddogion ystyried a fyddai rhai o'r ceisiadau symlach yn y dyfodol yn addas i'w trafod yn gyhoeddus.

**Penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

## 6. Y Ceisiadau i'w Hystyried

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn amlinellu pedwar cais a wnaed i'r gronfa ers y cyfarfod blaenorol, ac atgoffwyd yr Aelodau bod pedwar categori i geisiadau:

a. Gosod cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn adeilad cymunedol.
b. Menter i hyrwyddo gostyngiad mewn allyriadau carbon mewn trafnidiaeth.
c. Gosod cyfleuster cymunedol sy'n lleihau gwastraff.
d. Unrhyw fenter arall i leihau carbon yn y gymuned.

| Math o Brosiect | Cyfeirnod | Sefydliad | Y cyllid a geisir |
|---|---|---|---:|
| A | SDF/012022/1 | Canolfan Gymunedol Hubberston a Hakin | 7,720 |
| C | SDF/012022/2 | Pembrokeshire Frame | 25,000 |
| D | SDF/012022/3 | Grŵp Cydnerthedd Cwmni Budd Cymunedol | 17,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| D | SDF/012022/4 | Cydnerthedd Cymunedol Ffynnone – Gogledd Ddwyrain Sir Benfro | 9,970 |
| | | **Cyfanswm y cyllid a geisir** | **59,690** |

Ystyriwyd pob cais yn fanwl yn erbyn y templed sgorio ac yn dilyn trafodaethau **penderfynwyd**:

(i) rhoi swm llawn y cyllid y gofynnwyd amdano i'r ceisiadau canlynol, cyn belled ag y cedwir at amodau arferol y grant:

a) SDF/012022/1 - Canolfan Gymunedol Hubberston a Hakin: Hyb Batris

b) SDF/012022/2 - Pembrokeshire Frame: Refillery Doc Penfro

c) SDF/012022/4 - Ffynnone - cydnerthedd cymunedol yng Ngogledd Ddwyrain Sir Benfro: Hau i Fedi

(ii) Gwrthod y cais canlynol:

SDF/012022/3 – Grŵp Cydnerthedd Cwmni Budd Cymunedol: Parc Tyfu Bro – Mynegwyd pryderon ynghylch cymhwyster rhai agweddau o gyllideb y prosiect ar gyfer cyllido. Roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd digon o wybodaeth am y tir oedd i'w brydlesu, na'i union leoliad, na'i berchnogaeth bresennol, a bod mater wedi codi ynghylch prisio a pha mor gynaliadwy yw'r prosiect ar gyfer y dyfodol. Barnai'r Aelodau bod y cais yn amwys heb strwythur clir ac nad oedd digon o eglurder ynghylch a oedd yn cyd-fynd â'r Gronfa yn gyffredinol. Fodd bynnag, byddai ganddynt ddiddordeb mewn clywed sut oedd y bartneriaeth gyda CSP yn datblygu, ac y byddent yn croesawu cais diwygiedig.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022 heb eu diwygio.